

CYMRAEG AIL-IAITH

Cymry yn y Gemau Olympaidd

C.Phillips

Pennod1

Cymry yn y Gemau Olympaidd




Cymry yn y Gemau Olympaidd

Mae pobl o Gymru yn cystadlu yn y Gemau Olympaidd.

Mae pobl o Gymru yn cystadlu gyda Prydain Fawr.

Prydain Fawr (Great Britain)



Cymry yn y Gemau Olympaidd



Dyma pobl o Gymru yng Nghaerdydd ar ol y Gemau Olympaidd yn 2008.


• • • • •



Sawl medal?

Sawl medal mae Cymru wedi ennill yn y Gemau Olympaidd?

Graff i ddangos sawl medal mae pobl o Gymru wedi ennill yn y Gemau Olympaidd



David Davies

Pwy ydy David Davies?

Beth mae e'n wneud?



Pwy ydy David Davies?

David Davies

David Davies ydw i. Dw i'n nofio yn broffesiynol. Mae fy mhenblwydd ar Fawrth y 3ydd. Ces i fy ngeni yn 1985. Ces i fy ngeni ar bwys Caerdydd yng Nghymru. Fy ffugenw yw 'Dai Splash'!

Fy hoff fwyd ydy cinio rhost. Dw i'n hoffi pwdin reis hefyd. Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi chwarae'r 'playstation'.

Dw i'n nofio bob dydd. Rhaid i fi ymarfer i nofio'n dda ac yn gyflym. Rhaid i fi gadw'n heini a bwyta'n iach hefyd.



Pan roeddwn i'n un deg wyth mlwydd oed, es i Gemau Olympaidd yn Athens. Ces i fedal efydd am nofio. Yn 2008, roeddwn i'n ddau deg dau mlwydd oed, ac es i i'r Gemau Olympaidd yn Beijing. Ces i fedal arian am nofio.



Lluniau o David Davies?

David Davies

Fi yn y Gemau Olympaidd!



Dyma fi'n ennill medal arian yn y Gemau Olympaidd yn 2008.



Darllen Dawnus - David Davies

David Davies

Darllen **D**awnus

Question 1 of 8

Beth dw i'n wneud?

- ☒ **A.** nofio
- ☐ **B.** deifio
- ☐ **C.** athletau
- ☐ **D.** paffio



Nicole Cooke

Pwy ydy Nicole Cooke?

Beth mae hi'n wneud?



Pwy ydy Nicole Cooke?

Nicole Cooke

Nicole Cooke ydw i. Dw i'n seiclo yn broffesiynol. Mae fy mhenblwydd ar Ebrill 13. Ces i fy ngeni yn 1983. Ces i fy ngeni yn Abertawe.

Dechreuais i feicio pan roeddwn i'n un deg un mlwydd oed.

Fy hoff fwyd ydy bwyd Eidalaidd a fy hoff ddiod ydy smwddi ffrwythau. Yn fy amser sbâr, dw i'n hoffi rhwyfo, cerdded a sgïo.

Yn 2008, es i i'r Gemau Olympaidd yn Beijing. Ces i fedal aur am feicio ar y ffordd.



Lluniau o Nicole Cooke

Nicole Cooke

Dyma fi yn y Gemau Olympaidd!



Dyma fi'n beicio ar y ffordd yn y Gemau Olympaidd.

• •



Darllen Dawnus - Nicole Cooke

Nicole Cooke

Darllen **D**awnus

Question 1 of 7

Beth dw i'n wneud?

- ☐ A. rhedeg
- ☐ B. beicio mynydd
- ☒ C. beicio ar y ffordd
- ☐ D. beicio ar y trac



Pennod 4

Dai Greene

Pwy ydy Dai Greene?

Beth mae e'n wneud?



Pwy ydy Dai Greene?

Dai Greene

Dai Greene ydw i. Dw i'n rhedeg yn broffesiynol. Mae fy mhenblwydd ar Ebrill 11. Ces i fy ngeni yn 1986. Ces i fy ngeni ar bwys Llanelli.

Dw i'n rhedeg y ras glwydi 400 metr.

I frecwast, dw i'n bwyta tost gyda 'peanut butter'. I ginio, dw i'n bwyta pasta a llysiau ac i swper dw i'n bwyta pasta bake neu lasagne. Dw i ddim yn bwyta llawer o fwyd tecawê achos rhaid i fi fwyta'n iach.



Yn 2010, es i i Gemau'r Gymanwlad. Ces i fedal aur am rhedeg y ras glwydi 400 metr. Dw i ddim wedi ennill medal yn y Gemau Olympaidd. Hoffwn i ennill un yn y Gemau Olympaidd yn Llundain.



Lluniau o Dai Greene

Dai Greene

Dyma fi!



Dyma fi'n rhedeg y ras glwydi yn y Gemau Gymanwlad yn Barcelona yn 2010.



Darllen Dawnus - Dai Greene

Dai Greene

Darllen Dawnus

Question 1 of 6

Beth dw i'n wneud?

- ☐ A. nofio
- ☐ B. deifio
- ☒ C. athletau
- ☐ D. paffio



Check Answer

